Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2026 Rhif 101

## Gorchymyn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (Diwrnod Penodedig) (Cymru) 2026

*Gwnaed* *26 Mawrth 2026*

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2026 No. 101

## The School Organisation Code (Appointed Day) (Wales) Order 2026

*Made* *26 March 2026*

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2026 Rhif 101

# ADDYSG, CYMRU

# Gorchymyn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (Diwrnod Penodedig) (Cymru) 2026

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn pennu 30 Mawrth 2026 fel y diwrnod y daw'r Cod Trefniadaeth Ysgolion ("y Cod") a ddyroddir gan Weinidogion Cymru o dan adrannau 38 a 39 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ("Deddf 2013") i rym.

Mae'r Cod yn disodli'r Cod Trefniadaeth Ysgolion a ddaeth i rym ar 1 Tachwedd 2018.

Mae'r Cod yn gosod gofynion ac yn cynnwys canllawiau sy'n nodi nodau, amcanion neu faterion eraill mewn perthynas â chynigion trefniadaeth ysgolion a wneir o dan Ran 3 o Ddeddf 2013. O dan adran 38(4) o Ddeddf 2013, dyletswydd Gweinidogion Cymru, awdurdodau lleol, corff llywodraethu ysgol a gynhelir, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil ("y Comisiwn") a phersonau eraill, wrth arfer swyddogaethau o dan Ran 3 o Ddeddf 2013, yw gweithredu yn unol ag unrhyw ddarpariaethau perthnasol yn y Cod. Yn ogystal, rhaid i unrhyw berson arall, wrth arfer unrhyw swyddogaeth at ddiben cyflawni swyddogaethau gan Weinidogion Cymru, awdurdod lleol, corff llywodraethu ysgol a gynhelir neu'r Comisiwn o dan y Rhan honno, weithredu yn unol ag unrhyw ddarpariaeth berthnasol yn y Cod.

Mae'r Cod ar gael ar-lein ar www.llyw.cymru.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2026 Rhif 101

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (Diwrnod Penodedig) (Cymru) 2026

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *26 Mawrth 2026* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pŵer a roddir iddynt gan adran 39(4)(b) o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013([1]) ("Deddf 2013"), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â phob awdurdod lleol, corff llywodraethu pob ysgol a gynhelir, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, a'r personau eraill hynny y maent yn ystyried eu bod yn briodol ynghylch drafft o'r Cod Trefniadaeth Ysgol ("y Cod") yn unol ag adran 39(1) o Ddeddf 2013.

Yn unol ag adran 39(2) o Ddeddf 2013, gosodwyd drafft o'r Cod gerbron Senedd Cymru([2]) ar 6 Chwefror 2026.

Yn unol ag adran 39(3) o Ddeddf 2013, o fewn cyfnod o 40 niwrnod, ni phenderfynodd Senedd Cymru beidio â chymeradwyo'r Cod drafft, a dyroddwyd y Cod ar ffurf y drafft hwnnw.

### Enwi

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (Diwrnod Penodedig) (Cymru) 2026.

### Y diwrnod penodedig

**2.** Y diwrnod penodedig i'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (y gosodwyd copi o ddrafft ohono gerbron Senedd Cymru ar 6 Chwefror 2026) ddod i rym yw 30 Mawrth 2026.

---

(**1**) 2013 dccc 1.
(**2**) Mae unrhyw gyfeiriad yn Neddf 2013 at Gynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yn cael effaith fel cyfeiriad at Senedd Cymru yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Lynne Neagle*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, un o Weinidogion Cymru
26 Mawrth 2026

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2026 No. 101

# EDUCATION, WALES

## The School Organisation Code (Appointed Day) (Wales) Order 2026

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Order)*

This Order appoints 30 March 2026 as the day on which the School Organisation Code (“the Code”), issued under sections 38 and 39 of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 (“the 2013 Act”) by the Welsh Ministers, comes into force.

The Code replaces the School Organisation Code which came into force on 1 November 2018.

The Code imposes requirements and includes guidelines setting out aims, objectives or other matters in relation to school organisation proposals made under Part 3 of the 2013 Act. Under section 38(4) of the 2013 Act, it is the duty of the Welsh Ministers, local authorities, the governing body of a maintained school, the Commission for Tertiary Education and Research (“the Commission”) and other persons, when exercising functions under Part 3 of the 2013 Act, to act in accordance with any relevant provisions of the Code. In addition, any other person, when exercising any function for the purpose of the discharge by the Welsh Ministers, a local authority, the governing body of a maintained school or the Commission of functions under that Part, must act in accordance with any relevant provision of the Code.

The Code can be accessed on the internet at www.gov.wales.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2026 No. 101

## EDUCATION, WALES

## The School Organisation Code (Appointed Day) (Wales) Order 2026

*Made* *26 March 2026*

The Welsh Ministers in exercise of the power conferred on them by section 39(4)(b) of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013(**1**) ("the 2013 Act") make the following Order.

The Welsh Ministers have consulted each local authority, the governing body of each maintained school, Her Majesty's Chief Inspector of Education and Training in Wales, the Commission for Tertiary Education and Research, and such other persons they consider appropriate on a draft of the School Organisation Code ("the Code") in accordance with section 39(1) of the 2013 Act.

In accordance with section 39(2) of the 2013 Act, a draft of the Code was laid before Senedd Cymru(**2**) on 6 February 2026.

In accordance with section 39(3) of the 2013 Act, within a period of 40 days Senedd Cymru did not resolve not to approve the draft Code, and the Code was issued in the form of that draft.

### Title

**1.** The title of this Order is the School Organisation Code (Appointed Day) (Wales) Order 2026.

### Appointed day

**2.** The day appointed for the coming into force of the School Organisation Code (a copy of a draft of which was laid before Senedd Cymru on 6 February 2026) is 30 March 2026.

---

(**1**) 2013 anaw 1.
(**2**) Any reference in the 2013 Act to the National Assembly for Wales now has effect as a reference to Senedd Cymru by virtue of section 150A(2) of the Government of Wales Act 2006 (c. 32).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Lynne Neagle*
Cabinet Secretary for Education, one of the Welsh Ministers
26 March 2026